CYFLAWNI TEGWCH A RHAGORIAETH MEWN ADDYSG A GWELL LLES I BAWB

EQUITY AND EXCELLENCE IN EDUCATION AND ENHANCED WELLBEING FOR ALL

# Cyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

# Y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant

## Polisi Gwersi gan Diwtor - Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS)

**Ionawr 2024**

## 1. Diben

Cafodd y ddogfen yma ei llunio i roi gwybod i rieni/gwarcheidwaid, ysgolion a phartneriaid eraill am y broses a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â cheisiadau am wersi gan diwtor ar sail unigol neu mewn grŵp.

## 2. Cyflwyniad a'r Cyd-destun

Mae Rhondda Cynon Taf (RhCT) yn ystyried mai'r ysgol prif ffrwd leol a'r gymuned leol yw'r lle gorau i'r mwyafrif o blant a phobl ifainc gael eu haddysg. Serch hynny, rydyn ni'n cydnabod bod rhaid i ysgolion ymateb i ystod eang o anghenion disgyblion. Efallai bydd angen darpariaeth a chefnogaeth fwy arbenigol ar gyfer rhai o'n disgyblion sydd fwyaf agored i niwed. Gall hyn gynnwys lleoliad mewn dosbarth cymorth dysgu neu ysgol arbennig. Bydd grŵp bach ond pwysig o blant a phobl ifainc nad oes modd eu dysgu yn yr ysgol hefyd. Un o flaenoriaethau allweddol yr Awdurdod Lleol yw gwneud darpariaeth briodol ar gyfer y rheiny sydd angen Addysg Heblaw yn yr Ysgol a dychwelyd y plant a'r bobl ifainc yma i'r ysgol i ddysgu ochr yn ochr â'u cyfoedion cyn gynted â bo modd iddyn nhw.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod darpariaeth addas ar gael i blant neu bobl ifainc o oedran ysgol gorfodol lle nad oes modd iddyn nhw, o ganlyniad i salwch neu o ganlyniad i gael eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol, gael mynediad at addysg addas heb ddarpariaeth o'r fath. Mae hyn yn berthnasol p'un a yw'r plentyn neu'r person ifanc ar gofrestr ysgol prif ffrwd, ysgol arbennig neu Uned Atgyfeirio Disgyblion ai peidio.

## 3. Gofynion Cyfreithiol

Mae dyletswydd RhCT fel Awdurdod Lleol wedi'i nodi yn adran 19 (1) o Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd):

*'Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas (yn yr ysgol neu fel arall) ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol na fyddent fel arall yn ei dderbyn am unrhyw gyfnod oherwydd salwch, gwaharddiad o'r ysgol neu fel arall '.*

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddarparu addysg addas ar gyfer pob disgybl sydd wedi ei wahardd o'r ysgol yn barhaol yn y fwrdeistref o'r 16eg diwrnod ysgol yn dilyn penderfyniad gan Bwyllgor Disgyblu Corff Llywodraethu i gynnal gwaharddiad parhaol y Pennaeth. Mae gan Awdurdod Lleol bŵer dewisol (yn hytrach na dyletswydd) i wneud trefniadau ar gyfer addysg sy'n addas i oed, gallu ac anghenion addysgol arbennig (AAA) / anghenion dysgu ychwanegol (ADY) y plentyn neu'r person ifanc. Does dim gofyniad statudol ar hyn o bryd yn gorfodi Awdurdodau Lleol i ddarparu nifer penodol o oriau o addysg i blant a phobl ifainc sy'n cael Addysg Heblaw yn yr Ysgol. Serch hynny, yn gyffredinol mae'n cael ei ystyried yn arfer da i ddarparu'r canlynol: 21 awr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen; 23.5 ar gyfer Cyfnod Allweddol 2; a 25 ar gyfer Cyfnod Allweddol 3/4). Mae hyn yn cynnwys disgyblion sydd wedi cael eu gwahardd yn barhaol. Serch hynny, dydy darpariaeth addysg amser llawn ddim bob amser yn bosibl ar gyfer disgyblion sydd wedi'u hymddieithrio'n llwyr o addysg neu sydd ddim yn gallu ymdopi â chyfnodau hir o ddysgu oherwydd eu hanghenion meddygol neu seicolegol.

Mae darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol gan diwtor yn mabwysiadu dull sy’n canolbwyntio ar y plentyn. I'r rhai sy'n derbyn gwersi gan diwtor ar sail unigol neu mewn grŵp, mae lefel y gefnogaeth wedi'i theilwra i anghenion y plentyn unigol a'r dylanwad uniongyrchol a gaiff y ddarpariaeth ar allu'r plentyn i ymgysylltu a mynychu. Mae'r ALl wedi ymrwymo i sicrhau bod profiad addysgol pob plentyn yn parhau i gael ei lywio gan anghenion, gydag adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal bob hanner tymor o bresenoldeb/ymgysylltiad i addasu a mireinio'r oriau o ddarpariaeth sy'n cael ei wneud. Fel gwaelodlin, rydyn ni'n gwarantu isafswm o awr o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ddyddiol i bob disgybl. Serch hynny, rydyn ni hefyd yn cydnabod y gallai anghenion rhai disgyblion olygu eu bod nhw'n gallu ymgysylltu’n dda â gwersi a'u bod efallai angen gwersi ychwanegol, a all fod yn fwy na’r dyraniad safonol o 5 awr yr wythnos ar gyfer disgyblion 5-14 oed a 10 awr yr wythnos ar gyfer disgyblion 14-16 oed, sydd wedi dechrau'u blynyddoedd arholiadau. Mae gwersi gan diwtor mewn grŵp yn ddarpariaeth amser llawn ond mae hefyd yn gallu gweithio mewn ffordd hyblyg yn seiliedig ar angen. Bydd angen i Banel Adolygu Addysg Heblaw yn yr Ysgol gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i wersi addysg heblaw yn yr ysgol y disgybl, er mwyn sicrhau aliniad parhaus ag anghenion addysgol esblygol y plentyn. Mae’r dull yma'n adlewyrchu ein hymroddiad i ddarparu gwasanaeth addysgol hyblyg ac ymatebol sy’n cefnogi pob plentyn i ffynnu.

Ar gyfer disgyblion sy'n cael mynediad i'r gwersi gan diwtor, dylai cynlluniau ar gyfer eu haddysg yn y dyfodol gynnwys yn benodol sut mae modd eu dychwelyd i addysg amser-llawn (Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, 2006).

Mae'r Polisi Gwersi gan Diwtor yn rhoi sylw dyledus i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys y dyletswyddau rhagweithiol. Mae Adran 20 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn pwysleisio'r angen i'r Cyngor ac i ysgolion fod yn rhagweithiol mewn perthynas ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth sy'n anabl ac i gymryd camau rhesymol i ddileu rhwystrau sy'n eu hatal rhag manteisio ar wasanaethau. Mae'r ddyletswydd yn 'rhagweithiol' o ran bod rhaid pwyso a mesur beth ydy'r rhwystrau sy'n atal unigolion anabl rhag manteisio ar wasanaethau a chymryd rhan mewn profiadau ac ystyried camau gweithredu ymlaen llaw yn ei sgil.

Mae dyletswyddau'r ALl hefyd wedi'u nodi yn y 'Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer Cymru 2021' (gweler Adran 6). Mae’r Cod yn gosod gofynion ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, Sefydliadau Addysg Bellach ac ALlau o ran y canlynol:

- penderfyniadau ynghylch a oes gan ddisgybl ADY,
- paratoi, cynnwys, ffurfio, adolygu a diwygio cynlluniau datblygu unigol (“CDUau”),
- cynnal CDUau yn dod i ben

Os yw disgybl yn derbyn gwersi gan diwtor, bod ganddo ADY a nodwyd a'i fod naill ai wedi'i gofrestru'n ddeuol ag ysgol neu wedi'i gofrestru'n unigol i ddysgu, yna'r ALl fydd yn gyfrifol am gynnal y CDU. Bydd yr ALl hefyd yn trefnu’r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) a ddisgrifir mewn CDU y mae’n ei gynnal ar gyfer plentyn.

Mae angen i'r Awdurdod Lleol; lle mae'n briodol, ddarparu addysg i blant a phobl

ifainc sy'n anaddas yn feddygol i fynychu'r ysgol. Er mwyn sicrhau bod y plant a'r bobl ifainc yma'n cael eu hawl i ddysgu, dylai trefniadau gael eu gwneud i gyflwyno eu haddysg trwy wahanol fathau o ddarpariaeth. Efallai bydd y trefniadau yma'n cynnwys gwersi gan diwtor ar sail unigol neu mewn grŵp, gan weithio tuag at gymwysterau achrededig, profiad gwaith estynedig, lleoliadau galwedigaethol neu ddysgu sy'n gysylltiedig â gwaith gyda darparwyr allanol. Mae'r canllawiau yma'n ymwneud yn benodol â'r prosesau ar gyfer ystyried ceisiadau am wersi gan diwtor.

Pwrpas gwersi gan diwtor yw darparu ateb tymor byr i anallu plentyn neu berson ifanc i fynychu'r ysgol o ganlyniad i resymau meddygol neu waharddiad. Mae rhesymau meddygol yn cynnwys plant a phobl ifainc sydd ag anghenion corfforol sylweddol, sy'n sâl, sy'n derfynol wael neu sy'n gwella o anafiadau a hefyd pobl ifainc sydd ag anawsterau iechyd meddwl neu anawsterau seicolegol sylweddol. Mewn amgylchiadau eithriadol, mae modd darparu gwersi gan diwtor fel mesur dros dro ar gyfer plant a phobl ifainc sydd heb reswm meddygol dros beidio â mynychu'r ysgol ond sydd efallai mewn perygl o gael eu gwahardd. Bydd lefel y gefnogaeth dysgu sy'n cael ei darparu'n dibynnu ar anghenion y plentyn neu'r person ifanc, ei oedran a'i gyfnod allweddol. Gan nad oes modd i wersi gan diwtor ar sail unigol neu mewn grŵp ddyblygu'r cwricwlwm eang a chytbwys y mae modd ei ddarparu mewn lleoliad ysgol, y prif ganolbwynt fydd cefnogi pynciau craidd lle bo modd, yn ogystal â chanolbwyntio ar gymorth lles.

Mae nodau gwersi gan diwtor wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

- rhoi cymorth i ddisgyblion sydd ddim yn gallu mynychu'r ysgol am gyfnod o amser cytunedig
- lleihau'r ymyrraeth ag addysg plentyn neu berson ifanc cyn belled â phosibl ac i gadw cysylltiad agos â'r ysgol prif ffrwd
- darparu dilyniant cyn belled ag y bydd amgylchiadau yn caniatáu
- sicrhau bod plant a phobl ifainc yn cael y cyfle i gael mynediad at addysg o safon uchel
- ail-integreiddio cynifer o blant a phobl ifainc â phosib i addysg prif ffrwd cyn gynted â phosib
- sicrhau'r canlyniadau addysgol gorau yng nghyd-destun anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd y plentyn neu'r person ifanc
- darparu'r gwerth gorau o ran deilliannau disgyblion a defnydd effeithlon o adnoddau.

## 4. Meini Prawf ar gyfer Gwersi gan Diwtor

Mae gwersi gan diwtor y tu allan i'r ysgol yn cael ei ddarparu yn Rhondda Cynon Taf i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol sydd, am amrywiaeth o resymau, yn methu mynychu ysgol briodol. Mewn achosion unigol, mae'r ffactorau penodol yn aml yn gymhleth ond dylai'r disgyblion fod yn absennol am gyfnod o 15 diwrnod neu ragor a chwrdd ag un o'r meini prawf canlynol:

- wedi cael ei dderbyn i'r ysbyty am driniaeth feddygol, yn dioddef o salwch hirdymor neu angen cyfnod o adferiad yn dilyn anaf corfforol neu ymyrraeth y mae tystiolaeth feddygol arbenigol ar ei gyfer i gefnogi'r atgyfeiriad
- ag anawsterau iechyd meddwl neu seicolegol sylweddol sydd wedi arwain at gyfnod o absenoldeb o'r ysgol (e.e. ffobia ysgol, iselder ysbryd, gorbryder)

er gwaethaf ymyriadau priodol yn yr ysgol, cymorth a chyfranogiad asiantaeth allanol. Mewn achosion o'r fath, byddai disgwyl bod Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn cymryd rhan yn barhaus a byddai angen cyngor arbenigol ganddyn nhw sydd heb fod yn fwy na 3 mis oed ar adeg atgyfeirio (ac sy'n cael ei ddiweddaru bob 6 mis). Bydd hefyd angen asesiad cyfredol gan Seicoleg Addysg i gefnogi'r atgyfeiriad. Pan fydd disgybl wedi'i atgyfeirio at CAMHS ond yn aros am apwyntiad, bydd yr asesiad diweddaraf gan Seicolegydd Addysg (sydd heb fod yn fwy na 3 mis oed) yn cael ei drafod a bydd y panel dyfarnu yn pennu dyddiad ar gyfer adolygiad interim i ganiatáu amser i'r Apwyntiad CAMHS ddigwydd. Bydd angen i dystiolaeth gan seicolegydd addysg a/neu CAMHS ddangos bod y salwch yn gwneud presenoldeb yn yr ysgol/Uned Atgyfeirio Disgyblion yn amhriodol ar y pwynt atgyfeirio.

- yn aros am le mewn ysgol arbennig neu ddarpariaeth arbenigol a does dim modd iddo fynychu ysgol prif ffrwd gyda chymorth yn y cyfamser. Mae hyn fel arfer yn berthnasol i ddisgyblion ag anghenion difrifol sy'n newydd i'r Awdurdod Lleol sydd angen lleoliad prydlon. Mewn achosion o'r fath, bydd angen yr asesiad Seicoleg Addysg ddiweddaraf neu ddatganiad o anghenion addysgol arbennig/CDU i gefnogi'r atgyfeiriad.
- mamau beichiog neu ifainc sy'n dioddef problemau sylweddol yn ymwneud â beichiogrwydd neu ar ôl geni. Mewn achosion o’r fath, bydd angen gwybodaeth feddygol arbenigol i gefnogi’r atgyfeiriad a bydd angen dangos bod y problemau yn gwneud presenoldeb yn yr ysgol/Uned Atgyfeirio Disgyblion yn amhriodol ar y pwynt atgyfeirio.
- plant neu bobl ifainc sydd wedi'u heithrio am gyfnod o fwy na 15 diwrnod neu sydd wedi cael eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol ac sydd angen cymorth brys i hwyluso lleoliad mwy addas.
- lle mae angen o ran diogelu sy'n atal plentyn neu berson ifanc rhag mynychu ysgol er eu diogelwch eu hunain neu ddiogelwch eraill a does dim modd mynd i'r afael â'r materion diogelu yn yr ysgol. Mewn achosion o'r fath, bydd angen asesiad risg a ddatblygwyd ar y cyd â charfan diogelu'r ALl i gefnogi'r atgyfeiriad.

Pan fydd y cais yn cael ei wneud, rhaid i'r plentyn neu berson ifanc:

- fod o oedran ysgol statudol
- bod yn byw yn RhCT

Fydd darpariaeth gwersi gan diwtor ar sail feddygol ar gyfer cyflwr iechyd corfforol ddim yn cael ei chytuno heb dystiolaeth feddygol sy'n dangos bod angen i blentyn neu berson ifanc fod yn absennol o'r ysgol am gyfnod o dros bymtheg diwrnod ysgol. Mewn amgylchiadau eithriadol, pan mae'n debygol bydd oedi nad oes modd ei osgoi cyn derbyn llythyr o gefnogaeth gan ymgynghorydd neu weithiwr meddygol proffesiynol arbenigol, bydd llythyr gan feddyg teulu'n cael ei ystyried fel tystiolaeth yn y cyfamser gan y panel Addysg Heblaw yn yr Ysgol. Serch hynny, fydd darpariaeth gwersi gan diwtor ddim yn cael ei chytuno oni bai bod yr holl feini prawf eraill wedi cael eu bodloni a bydd yn cael ei ddarparu dros y tymor byr yn unig wrth i'r panel aros am adroddiadau eraill gan arbenigwyr.

Pan fo'r atgyfeiriad yn ymwneud â phryderon seicolegol neu iechyd meddwl, mae disgwyl y bydd seicolegydd addysg wedi gweld y plentyn neu'r person ifanc yn rhan o

ymateb graddedig. Bydd tystiolaeth o ymyriadau perthnasol, rhaglenni unigol a chymorth hefyd yn cael ei disgwyl oni bai fod amgylchiadau eithriadol a dylai hyn gynnwys cyfraniad parhaus a chyfredol CAHMS gydag adroddiadau ategol.

Ddylai unrhyw gyngor proffesiynol (e.e. CAMHS, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg) ddim cynnwys argymhellion penodol yn ymwneud â lleoliad ond disgrifiad o anghenion y disgybl, gwaith sy'n cael ei wneud gan yr asiantaeth honno ac unrhyw ddulliau ac ymyriadau gofynnol.

## 5. Atgyfeirio a Gweithdrefnau Paneli

### Panel Cynghori Addysg Heblaw yn yr Ysgol

Caiff pob cais newydd am Addysg Heblaw yn yr Ysgol gan diwtor ei wneud drwy’r Porth Proffesiynol drwy lenwi Ffurflen Gais am Wersi gan Diwtor a fydd wedyn yn cael ei drafod yn y Panel Cynghori Addysg Heblaw yn yr Ysgol. Bydd y Panel yn adolygu’r dystiolaeth ategol sy'n cael ei gyflwyno gyda’r atgyfeiriad ac yn gwneud penderfyniad ynghylch cymhwyster y disgybl i gael mynediad i wersi gan diwtor yn seiliedig ar y meini prawf mynediad ac ymadael uchod. Lle ystyrir bod angen tystiolaeth bellach, bydd yr atgyfeiriad yn cael ei ddychwelyd at y sawl sydd wedi gwneud yr atgyfeiriad gyda chyngor ar yr wybodaeth goll sydd ei hangen. Dim ond gweithwyr proffesiynol addysg perthnasol yr ALl sydd â'r modd i atgyfeirio i’r Panel Addysg Heblaw yn yr Ysgol. Lle nad yw plentyn ar y gofrestr mewn ysgol ar hyn o bryd, rhaid i rieni sy’n ceisio cyngor ynghylch darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol gysylltu â’r Pennaeth Dysgu Amgen yn y lle cyntaf a fydd yn rhoi cyngor ar y camau nesaf.

Ar gyfer disgyblion sy'n dioddef damwain neu ddigwyddiad sydyn sy'n ddigon gwael a digon sylweddol i'w rhwystro rhag mynychu'r ysgol am o leiaf 15 diwrnod, neu'r disgyblion hynny sydd wedi cael eu gwahardd yn barhaol, dylai'r ysgol gwblhau'r ffurflen Cais Ystyried Lleoliad (PCR) gan gyflwyno'r holl dystiolaeth angenrheidiol i'r panel nesaf. Mewn rhai achosion, mae modd gwneud penderfyniadau y tu allan i’r panel i sicrhau mynediad prydlon at addysg heblaw yn yr ysgol, yn enwedig mewn perthynas â gwaharddiad parhaol.

Ar gyfer pob disgybl arall, bydd disgwyl bod yr ysgolion wedi dilyn ymateb graddedig i gefnogi'r disgybl, cyn gwneud cais ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol gan diwtor. Bydd yn ofynnol i ysgolion ddangos tystiolaeth o'r camau maen nhw wedi'u cymryd i fynd i'r afael ag anghenion y disgybl a sut y maen nhw wedi rhoi cyngor a roddwyd gan asiantaethau perthnasol ar waith yn rhan o'r ymateb graddedig yma.

Bydd gan fwyafrif y disgyblion sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer mynediad i wersi gan diwtor ADY a nodwyd a bydd y Panel yn dilyn proses ddynodedig yr ALl i sicrhau bod CDU yn cael ei gwblhau yn ôl yr amserlenni statudol. Bydd y CDU yn adlewyrchu'r Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol (DDdY) y bydd y disgybl yn ei dderbyn trwy wersi gan diwtor. (Gweler Atodiad 1 – CDU Addysg Heblaw yn yr Ysgol/a Gynhelir gan yr ALl - Map Proses RhCT).

O ran disgyblion sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), bydd angen trafod unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth addysgol yn rhan o'r broses Adolygu Flynyddol. Pan fo'r Adolygiad Blynyddol yn nodi bod angen darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol, bydd y dystiolaeth yn cael ei hystyried ym mhrif banel Anghenion

Addysgol Arbennig (AAA) yr awdurdod lleol. Os bydd darpariaeth gwersi gan diwtor yn cael ei chytuno gan aelodau o'r panel Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), yna bydd y datganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) perthnasol a'r Adolygiad Blynyddol yn cael eu hanfon ymlaen at y garfan Addysg Heblaw yn yr Ysgol i'w weithredu.

Mae disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaol o'r ysgol yn cael mynediad i wersi rhithwir gan diwtor i gefnogi eu datblygiad addysgol parhaus wrth iddyn nhw fynd trwy'r broses Panel Derbyn / ADY i gael mynediad i leoliad prif ffrwd neu arbenigol newydd. Dylai'r cyfnod o wersi gan diwtor ddim fel arfer fod yn fwy na chyfnod o 6 wythnos ar gyfer disgyblion sy'n cael mynediad i ddarpariaeth brif ffrwd, er mae'n bosibl ymestyn hyn os oes apêl wedi'i gyflwyno i'r Panel Apeliadau Annibynnol ar gyfer Gwaharddiadau i ganiatáu i'r apêl ddod i ben.

**Panel Adolygu Addysg Heblaw yn yr Ysgol**

Mae'r Panel Adolygu yn cyfarfod bob mis i adolygu disgyblion sy'n derbyn gwersi gan diwtor. Mae’r Panel Adolygu yn cael ei gadeirio gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant ac mae ganddo gynrychiolaeth amlasiantaeth, gan gynnwys y Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc, y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles, y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, Cwnsela Eye to Eye a Gyrfa Cymru. Mae'r Panel yn adolygu pob disgybl yn flynyddol, o leiaf. Os bydd pryderon nad yw disgybl yn gwneud digon o gynnydd neu’n ymddangos nad yw’n ymgysylltu â'r gwersi gan diwtor, neu os ystyrir bod angen cymorth ychwanegol ar ddisgybl neu nad yw bellach yn bodloni’r meini prawf, bydd y Pennaeth Dysgu Amgen yn gosod disgyblion ar agenda’r Panel ar sail dan arweiniad anghenion fel bod modd trafod a chytuno ar unrhyw newidiadau i’r ddarpariaeth.

## 6. Meini Prawf Ymadael ar gyfer Gwersi gan Diwtor ar Sail Unigol neu Mewn Grŵp

Bydd y ddarpariaeth gwersi gan diwtor yn cael ei adolygu o leiaf unwaith bob blwyddyn academaidd gan Banel Adolygu Addysg Heblaw yn yr Ysgol. (Yn achos disgyblion sydd wedi’u gwahardd yn barhaol a disgyblion sy’n cael gwersi gan diwtor am gyflyrau meddygol corfforol, mae’r cyfnod dysgu yn llawer byrrach a fydd dim angen adolygu’r ddarpariaeth yn gyffredinol). Bydd y Panel yn ystyried dod â'r gwersi gan diwtor i ben am y rhesymau a ganlyn:

- pan fydd tystiolaeth broffesiynol berthnasol fod modd diwallu anghenion y plentyn neu berson ifanc mewn lleoliad yn y brif ffrwd neu leoliad arbenigol bellach, a bod pob asesiad risg wedi'i gyflawni
- yn absenoldeb tystiolaeth arbenigol gyfredol sy'n cadarnhau bod sail feddygol/seicolegol i analluogrwydd plentyn neu berson ifanc i fynychu'r ysgol
- os yw'r disgybl yn methu â mynychu neu fod ar gael ar gyfer gwersi gan diwtor yn rheolaidd neu'n methu ag ymgysylltu â'r gwersi gan diwtor i'r graddau y dylai eu hanawsterau ganiatáu
- os oes pryderon diogelu/lles a chaiff ei gytuno bod angen i'r disgybl fynychu darpariaeth addysgol.

## 7. Swyddogaeth yr Ysgol

Mae'r ysgol lle mae'r disgybl ar y gofrestr yn parhau'n gyfrifol amdano drwy'r amser. Dylai fod gan bob ysgol bolisi a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer ymdrin ag addysg plant a phobl ifainc ag anghenion meddygol. Mae modd i hyn fod yn bolisi unigol neu fod yn rhan o bolisi AAA / ADY yr ysgol. Dylai polisïau mewn perthynas ag ymddygiad a'r broses wahardd fod yn eu lle hefyd. Dylai polisïau ysgolion amlinellu:

- strwythurau rheoli, cyfrifoldebau staff a llinellau cyfathrebu ar gyfer plant neu bobl ifainc ag anghenion meddygol (gan gynnwys anghenion iechyd meddwl)
- y ffordd y bydd yr ysgol yn gwneud darpariaeth addysgol ar gyfer plant a phobl ifainc ag anghenion meddygol, neu sydd wedi'u heithrio'n barhaol neu eu gwahardd am fwy na 15 diwrnod mewn tymor
- cyfrifoldeb y Corff Llywodraethu (Pwyllgor Disgyblu) i sicrhau bod darpariaeth addysg y tu hwnt i waith heb oruchwyliaeth gartref yn ei le os yw'r gwaharddiad yn fwy na 15 diwrnod
- dyletswydd a chyfrifoldebau'r ysgol i ddarparu a marcio gwaith os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn ddigon da i'w wneud ac os yw'r cyfnod o absenoldeb yn llai na thair wythnos ysgol
- cyfrifoldeb yr ysgol i fonitro presenoldeb y plentyn neu'r person ifanc yn wythnosol gyda darparwr Addysg Heblaw yn yr Ysgol ac i gadw cofnod yn y gofrestr i ddangos bod y disgybl yn cael Addysg Heblaw yn yr Ysgol gan ddefnyddio'r codau priodol yn unol â Chanllawiau'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles a Llywodraeth Cymru ar Godau Presenoldeb Ysgol (2010)
- strategaethau ar gyfer sicrhau cefnogaeth yn achos absenoldeb hirdymor, gan gynnwys darparu asesiadau a chynlluniau cwricwlwm o fewn 10 diwrnod gwaith a rhaglenni gwaith bob hanner tymor
- cyswllt penodol yn yr ysgol i gynorthwyo cyfathrebu â phartïon eraill, i fynychu adolygiadau a chadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r plentyn neu'r person ifanc, rhieni/gwarcheidwaid a staff Addysg Heblaw yn yr Ysgol
- gweithdrefnau ar gyfer sicrhau bod plant neu bobl ifainc sydd wedi'u cofrestru'n ddeuol yn cael eu cofrestru gan yr ysgol ar gyfer arholiadau cyhoeddus (gan gynnwys cwrdd â chostau) a bod gweithdrefnau ar gyfer darparu goruchwyliaeth ac unrhyw drefniadau mynediad i arholiadau ar gyfer yr arholiadau hynny yn eu lle. Bydd angen i'r oruchwyliaeth fod yn unol ag anghenion y person ifanc e.e. pan fo person ifanc yn derbyn gwersi gan diwtor ar sail unigol gartref, mae'n debygol y bydd angen i'w arholiadau gael eu cynnal gartref
- sut bydd gweithdrefnau'r ysgol yn ystyried barn y plentyn neu'r person ifanc
- gweithdrefnau ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn cael eu hailintegreiddio'n ddidrafferth i'r ysgol yn dilyn unrhyw gyfnod o absenoldeb ac yn cael cymorth i ddal i fyny ag unrhyw waith maen nhw wedi'i golli
- cyfrifoldebau diogelu mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gwersi gan diwtor.
- Sicrhau cyswllt â rhieni/gwarcheidwaid a gweithwyr proffesiynol perthnasol i sicrhau bod tystiolaeth ategol wedi'i diweddaru (gan gynnwys tystiolaeth feddygol e.e. CAMHS neu gyngor wedi'i ddiweddaru gan y garfan Seicoleg Addysg) yn barod ar gyfer cyfarfodydd adolygu. Yn absenoldeb gwybodaeth ategol barhaus briodol, efallai y bydd y panel Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn ailystyried cyfranogiad addysg heblaw yn yr ysgol yn y dyfodol oni bai bod tystiolaeth feddygol eisoes yn bodoli sy'n cefnogi parhad y gwersi gan diwtor

Er mwyn cefnogi disgyblion/rhieni a'r broses gwersi gan diwtor mae disgwyl bydd yr

ysgolion yn:

- cysylltu â'r Gwasanaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol a darparu gwybodaeth gyfredol am gofnodion cyflawniadau a'r cwricwlwm wrth baratoi ar gyfer y cyfarfod cyntaf
- sicrhau bod rhaglenni gwaith addas ar gael i blant a phobl ifainc sy'n cael gwersi gan diwtor a'u bod yn ystyried barn y disgybl cyn belled ag y bo'n rhesymol.
- cwrdd â’r holl brosesau ar gyfer arholiadau, ffioedd mynediad ar ran y plentyn neu berson ifanc a darparu goruchwyliwr i sicrhau bod unrhyw arholiadau allanol yn cael eu cwblhau lle nad yw’n bosibl i’r disgybl gwblhau’r asesiad yn yr ysgol neu’r Uned Atgyfeirio Disgyblion (Tŷ Castan neu Dŷ Gwyn).
- asesu asesiadau di-arholiad (NEA) a chyflwyno'r rhain i'r bwrdd arholi perthnasol lle bo angen
- rhoi gwybod i rieni a gwarcheidwaid a chael cydsyniad priodol er mwyn ymgynghori â gweithwyr proffesiynol eraill ynghylch absenoldeb eu plentyn o'r ysgol
- cadw cysylltiad bob hanner tymor gyda’r plentyn neu’r person ifanc a’r teulu drwy gydol eu cyfnod yn derbyn gwersi gan diwtor
- bod yn weithredol wrth fonitro cynnydd yn ystod absenoldeb o'r ysgol, gan gysylltu ag asiantaethau eraill ac ailintegreiddio'r disgybl
- trefnu cyfweliadau gyda gwarcheidwaid os yw hyn yn briodol
- sicrhau mynediad at wasanaethau cymorth ieuenctid, gwybodaeth ac arweiniad.

## 8. Swyddogaeth yr Awdurdod Lleol

Bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod yna drefniadau ar waith ar gyfer darparu dysgu amgen addysg / gwersi gan diwtor ar gyfer y plant a'r bobl ifainc hynny sydd o oedran ysgol gorfodol na fydd, o ganlyniad i salwch, gwaharddiad o'r ysgol neu resymau eraill, yn derbyn addysg addas am unrhyw gyfnod oni bai bydd trefniadau o'r fath yn cael eu gwneud ar eu cyfer. Bydd yr Awdurdod Lleol hefyd yn parhau i sicrhau bod pob penderfyniad mewn perthynas â mynediad yn deg a chadarn; a bod y ddarpariaeth yn addas ar gyfer anghenion y plentyn neu'r person ifanc a'u gallu i ymdopi gyda'r rhaglen addysgol sy'n cael ei chynnig.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod person a enwir gyda chyfrifoldeb dros gydlynu darpariaeth gwersi gan diwtor yn effeithiol. Yn RhCT y Pennaeth Dysgu Amgen fydd hwn, o dan reolaeth llinell Canolfan Addysg Uwchradd Tŷ Gwyn ac wedi'i leoli yng Nghanolfan Dysgu Tŷ Castan, Pontypridd.

Lle bo gan ddisgyblion sy'n derbyn gwersi gan diwtor AAA/ADY a nodwyd, bydd y Datganiad neu'r CDU yn cael ei gynnal gan yr ALl.

Bydd yr Awdurdod Lleol hefyd yn monitro cydymffurfiaeth â hyn a pholisïau perthnasol eraill yr Awdurdod Lleol.

## 9. Swyddogaeth y Pennaeth Dysgu Amgen

Y Pennaeth Dysgu Amgen sy'n gyfrifol o ddydd i ddydd am reoli a chydlynu'r

ddarpariaeth gwersi gan diwtor. Bydd hyn yn cynnwys yr angen i sicrhau bod:

- yr amgylchedd dysgu'n addas i'r pwrpas a bod asesiadau risg priodol wedi cael eu cynnal cyn dechrau ar y gwersi
- gan bobl ifainc sy'n derbyn gwersi gan diwtor ar sail unigol neu mewn grŵp fynediad at gyfleoedd addysgu a dysgu da a'r gefnogaeth sydd ei hangen i wneud cynnydd da Bydd hyn yn cynnwys unrhyw DDdY a nodir yn CDU y disgyblion.
- y sgiliau angenrheidiol gan y tiwtoriaid sy'n cyflwyno'r gwersi i ddysgu'r cwricwlwm yn effeithiol
- cyfathrebu rhwng y cartref, yr ysgol a staff Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn parhau er mwyn hwyluso'r trefniadau o ran y plentyn neu'r person ifanc yn dychwelyd i'r ysgol cyn gynted â phosibl
- anghenion iechyd emosiynol a chorfforol y disgybl yn cael eu diogelu.

Yn ogystal, bydd y Pennaeth Addysg Amgen yn gyfrifol am oruchwylio a chydlynu darpariaeth ac am sicrhau:

- cydlynu’r Panel Adolygu Addysg Heblaw yn yr Ysgol a sicrhau bod yr agenda a’r wybodaeth atgyfeirio briodol ar gael i holl aelodau’r panel sy’n bresennol yn y panel
- bod canlyniadau'r panel yn cael eu cofnodi a'u dosbarthu o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl y panel
- bod yr ysgol yn cael gwybodaeth berthnasol am y cwricwlwm/asesu a lles a diweddariadau i baratoi ar gyfer cyfarfodydd adolygu
- bod tiwtoriaid priodol gyda'r profiad perthnasol, gwybodaeth am y pynciau, arbenigedd yn cael eu comisiynu i gyflwyno'r gwersi
- gwaith amlasiantaeth effeithiol a chysylltu â gweithwyr proffesiynol Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed; staff ysgol perthnasol; Swyddogion Presenoldeb a Lles; staff Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid a Seicolegwyr Addysg.
- bod y gwersi gan diwtor yn dechrau dim hwyrach na 15 diwrnod gwaith o ddyddiad y panel AAA / ADY
- bydd cyswllt effeithiol rhwng yr ysgol, y tiwtor, y Pennaeth Dysgu Amgen a'r teulu/plentyn neu berson ifanc cyn y panel adolygu Addysg Heblaw yn yr Ysgol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn addas i'r pwrpas
- caiff y ddarpariaeth gwersi gan diwtor ei hadolygu gan y panel adolygu Addysg Heblaw yn yr Ysgol o leiaf unwaith bob blwyddyn academaidd
- bod atgyfeiriadau at y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn cael eu trafod gyda'r bobl ifainc a'u teuluoedd a'u bod yn cael eu gweithredu lle mae hyn yn cael ei ystyried yn briodol gan bob parti (e.e. Gwasanaethau Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, Gwasanaeth Cwnsela Eye to Eye, Teuluoedd Cydnerth)

Yn ogystal â'r cyfrifoldebau uchod, bydd y Pennaeth Dysgu Amgen hefyd yn gyfrifol am

- reoli cyflawniad tiwtoriaid
- sicrhau ymgysylltu a monitro presenoldeb trwy ddarparu'r wybodaeth gofrestru am y disgybl ar gyfer gwersi'r wythnos flaenorol i'r ysgol yn electronig erbyn y dydd Mawrth
- sicrhau bod atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn cael ei

wneud os nad yw plentyn/person ifanc wedi mynychu'r gwersi gan diwtor am bum diwrnod ac nid yw'r rheswm am hyn yn hysbys sicrhau bod gan bob tiwtor y cliriadau perthnasol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'u bod yn cydymffurfio â gofynion presenoldeb, cofrestru, lles a diogelu.

## 10. Swyddogaeth y Tiwtor

Mae gofyn i'r tiwtor:

- gyflwyno cofnodion dyddiol o gynnwys y wers sydd wedi'i chyflwyno i'r Pennaeth Dysgu Amgen
- cyflwyno gwaith cynllunio wythnosol i'r Pennaeth Dysgu Amgen
- darparu rhaglenni gwaith unigol mewn meysydd pwnc allweddol, wedi'u gwahaniaethu'n briodol a'u darparu mewn modd sensitif
- sicrhau addysgu a dysgu o ansawdd uchel
- marcio, asesu a chofnodi cynnydd a rhannu deilliannau gyda disgyblion, paneli a gweithwyr proffesiynol eraill
- sicrhau bod asesiadau yn effeithiol ac yn llywio cyflwyno cwricwlwm a chadw cofnodion
- sicrhau bod asesiadau sydd ddim yn arholiadau ac unrhyw asesiad arall sy'n ofynnol gan yr ysgol, cyrff arholiad neu'r gwasanaeth tiwtora yn cael eu cyflwyno'n brydlon
- gweithredu unrhyw gynlluniau addysg penodol, e.e. Datganiadau AAA, CDU yn rhan o'u gwaith cynllunio dyddiol
- cadw cysylltiad rheolaidd gyda'r Gwasanaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol, staff yr ysgol a gweithwyr proffesiynol eraill
- anelu'n rhagweithiol i ailintegreiddio disgyblion yn ôl i'r ysgol cyn gynted ag y bo modd
- cymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus a chyfarfodydd tymhorol gyda thiwtoriaid eraill a staff tiwtora
- cyflwyno taflenni amser misol yn unol â pholisi'r ALl neu yn unol â threfniadau a sefydlwyd rhwng yr asiantaeth a'r ALl
- cofnodi presenoldeb dyddiol a gwneud nodiadau maes o gysylltiadau.
- cadw parhad mewn sesiynau sydd wedi eu dyrannu a rhoi gwybod i'r Pennaeth Dysgu Amgen yn syth am unrhyw newidiadau
- cymryd rhan mewn cyfweliadau rheoli cyflawniad
- cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod Lleol.

## 11. Swyddogaeth y Rhieni/Gwarcheidwaid a Disgyblion

Mae gan rieni a gwarcheidwaid wybodaeth allweddol ac mae ganddyn nhw ran hanfodol i'w chwarae. Dylen nhw gael eu hannog i fod yn bartneriaid cydweithredol llawn a dylai eu barn

lywio natur y rhaglenni addysgol sy'n cael eu cytuno lle bo hynny'n briodol. Mae gan blant a phobl ifainc yr hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau ac ymarfer dewisiadau. Dylen nhw gymryd rhan weithgar trwy gydol y broses o sicrhau gwersi gan diwtor.

Bydd angen ymgynghori â phob rhiant/gwarcheidwad cyn i’r gwersi ddechrau er mwyn cynorthwyo gyda’r broses gynllunio ac i sicrhau eu bod yn gwbl effro i natur y ddarpariaeth. Dylai rhieni/gwarcheidwaid gael eu hannog i gadw mewn cysylltiad

rheolaidd ag ysgol eu plant, y tiwtor a'r Gwasanaeth Tiwtora. Bydd cynnwys rhieni/ysgol a phlentyn/person ifanc yn y cyfarfod cyntaf cychwynnol yn allweddol wrth wneud darpariaeth yn y dyfodol ac yn y broses drosglwyddo i wersi gan diwtor.

Rhaid i'r rhieni/gwarcheidwaid gysylltu â'r tiwtor/gweinyddwr gwasanaeth tiwtora yn syth os nad oes modd i'r plentyn/person ifanc gael mynediad i'r gwasanaeth o ganlyniad i salwch, apwyntiadau nad oes modd eu newid, ayyb. Rhaid cysylltu ar y diwrnod cyntaf does dim modd i'r plentyn/person ifanc gael mynediad i'r gwasanaeth, gan roi'r rheswm nad oes modd iddo fynychu'r gwersi gan diwtor. Yna, rhaid cysylltu ar bob dydd does dim angen y tiwtor, oni bai fydd y disgybl ddim yn mynychu'r gwersi am gyfnod penodol. Yn yr achos yma, bydd modd rhoi'r dyddiad olaf i'r tiwtor/gweinyddwr gwasanaeth tiwtora. Os fydd y rhiant/gwarcheidwad ddim yn cysylltu â'r tiwtor/gweinyddwr gwasanaeth tiwtora i roi gwybod bydd ei blentyn/person ifanc ddim yn cymryd rhan yn y gwersi, bydd y gwasanaeth yn cysylltu â'r rhiant/gwarcheidwad i ofyn lle mae'r disgybl. Os fydd y rhiant/gwarcheidwad ddim yn cysylltu o fewn pum diwrnod ysgol, bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud i'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles.


## 12. Asesu, Monitro ac Adolygu

Bydd y ddarpariaeth wersi gan diwtor yn cael ei chydlynu a'i monitro'n uniongyrchol gan y Pennaeth Dysgu Amgen. Rheolwr llinell y Pennaeth Dysgu Amgen yw Pennaeth y Ganolfan yng Nghanolfan Addysg Tŷ Gwyn a fydd yn goruchwylio ansawdd y ddarpariaeth o wersi gan diwtor.

## 13. Monitro ac adolygu'r polisi

Bydd gweithrediad y polisi yma'n cael ei fonitro'n barhaus gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant, Pennaeth Canolfan Addysg Tŷ Gwyn a Phennaeth Dysgu Amgen. Lle bo hynny'n briodol, bydd archwiliadau ffurfiol yn cael eu cynnal i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisi'r Awdurdod Lleol a gofynion statudol.

# Atodiad 1



CDU Addysg Heblaw yn yr Ysgol/a Gynhelir gan yr ALl
Map Proses RhCT
Wythnos 1
Mae'r disgybl yn mynychu darpariaeth prif ffrwd, mae'r ysgol yn cynnal adolygiad CDU/cyfarfod Cynllun sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn, yn cwblhau Offeryn Cynllun sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn a Chais Ystyried Lleoliad
GGADY:
Yn cadarnhau derbyn y gwaith papur trwy e-bost i'r ysgol a'r rhieni/gwarcheidwaid
Yn rhoi'r achos ar y Panel Ymgynghori nesaf
GGADY yn anfon taflenni gwybodaeth
Dim angen CDU ADY
Cais am leoliad wedi'i wrthod
Dim ADY
Atgyfeirio'r achos i'r Panel Ymgynghori Addysg Heblaw yn yr Ysgol
Penderfyniad LLEOLIAD – wedi'i weithredu gan Swyddog Gweinyddol Addysg Heblaw yn yr Ysgol:
Y Panel yn adolygu'r achos a'r wybodaeth ategol
Lleoliad Addysg Heblaw yn yr Ysgol wedi'i ddyfarnu / neu heb ei ddyfarnu yn seiliedig ar feini prawf Addysg Heblaw yn yr Ysgol
GGADY:
Yn cynghori'r rhieni, y dysgwr a'r ysgol ynghylch y penderfyniad a'r broses apelio Lleoliad:
Yn trefnu cyfarfod â'r rhieni i gytuno ar y ffordd ymlaen
Penderfyniad CDU – wedi'i weithredu gan GGADY:
Angen gwybodaeth ychwanegol
Dim tystiolaeth o ADY
CDU wedi'i gynnal gan yr ALl
Cytuno ar Swyddog Dynodedig yr All
Ystyried yr angen am gyfranogiad y Gwasanaeth Seicoleg Addysg
Parhau
Angen rhagor o wybodaeth
Wythnos 2- 4
Gwybodaeth ddigonol – bwriwch ymlaen i ddatblygu'r CDU
Gwybodaeth annigonol? GGADY yn:
Gofyn am wybodaeth ychwanegol. Dyddiad cau, 6 wythnos – Carfan Iechyd (A65), Mynediad a Chynhwysiant – 15 diwrnod gwaith
Rhoi'r achos ar y Panel ADY nesaf
Cynhelir cyfarfod Cynllun sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn os yn briodol
CDU drafft wedi'i baratoi gan bennaeth Dysgu Amgen a'i anfon at Gydlynwyr DDdY ar gyfer SA
GGADY yn rhannu gyda phob parti perthnasol
Os does dim ymateb gan y Garfan Iechyd o fewn 10 diwrnod o gyhoeddi'r drafft, bydd yr ALl yn cyhoeddi S20
Cyfnod ymgynghori 5 diwrnod gwaith, gan ganiatáu pawb i adolygu'r CDU drafft
Adborth wedi dod i law'r GGADY. Atgyfeirio'r achos i'r Panel i'w ystyried
S20 heb ei gyflwyno
ALl i roi gwybod i'r rhieni/ gwarcheidwaid am yr oedi, y rheswm a'r amserlen
Eithriad wedi ei gymhwyso
Wythnos 4 - 5
Achos wedi'i gyfeirio at y panel ADY i drafod cynrychiolaeth os yn briodol
Dim cynrychiolaeth
Wythnos 6
Yn dilyn y panel bydd Swyddog Dynodedig yr ALl yn cwblhau (ac yn gwneud diwygiadau os oes angen) ac yn trosglwyddo i GGADY
Wythnos 7
GGADY yn dosbarthu:
CDU terfynol yr ALl
Gwybodaeth am y broses apelio
Trefniadau adolygu